Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service




Fersiwn darllen chwim

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

# Cynllun Strategol 2020-2030

1AF EBRILL 2024 - DIWEDDARIAD BLWYDDYN PUMP

**CODI YMWYBYDDIAETH**
**LLEIHAU RISG**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg


# Ein Cynllun Strategol

Bob blwyddyn rydym yn ysgrifennu cynlluniau i egluro ein gwaith i wella diogelwch i bobl a busnesau De Cymru. Mae ein Cynllun Strategol yn disgrifio'r hyn yr ydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r hyn y bwriadwn ei wneud y flwyddyn nesaf.

Fel Gwasanaeth Tân ac Achub, mae ein gwaith yn cynnwys:

## Atal ac Amddiffyn


Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i ddarparu addysg briodol, ymgysylltu ac adolygu mesurau diogelu ar waith megis larymau mwg neu reoli tir (i leihau tanau gwyllt). Rydym yn asesu'r sawl sy fwyaf mewn perygl i wneud yn siŵr ein bod yn cefnogi pobl sy fwyaf agored i niwed.



## Ymateb

Yn ogystal â thanau domestig, masnachol, sbwriel a thanau gwyllt yr ydym yn eu mynychu, mae ein hymateb yn cynnwys gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, chwilio ac achub, cynorthwyo gwasanaethau eraill, a chymorth rhyngwladol. Mae hyn i gyd yn dibynnu ar ymdrin â galwadau'n effeithiol ac anfon gan ein timau Rheoli Tân ar y Cyd.






# Nodi ein Blaenoriaethau

## Ein Cynllun Gwella Blynyddol

Mae hwn yn bwrw golwg ar ble mae angen ein gwasanaethau a phwy sy fwyaf agored i berygl. Gofynnom am adborth ar ein syniadau ar gyfer 2024-2025 i ddeall a oedd y rhain yn cyfateb i'ch blaenoriaethau. O ganlyniad i'ch ymatebion a'n gwaith i gynnwys y staff sy'n gweithio ar draws y Gwasanaeth, daeth nifer o bynciau pwysig i'r amlwg:

- Defnyddio'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol yn fodd i wella, fel ein bod yn gwerthfawrogi ein staff, yn dod yn fwy cynhwysol ac yn cyfathrebu'n well
- Rhoi mwy o wybodaeth am y gwaith a wnawn
- Gwneud mwy i weithio i leihau risg
- Adolygu ein system Ar Alwad ar gyfer y diffoddwyr tân sy'n gweithio'n rhan amser
- Gweithio mwy gyda sefydliadau eraill
- Gwella ein systemau TGCh
- Edrych ar sut y gall ein teithiau fod yn fwy cynaliadwy
- Bod yn fwy atebol a thryloyw




## Adolygiad Diwylliant Annibynnol ac Adolygiadau Thematig

Ar ddiwedd 2022 roedd adroddiadau yn y wasg am gasineb at fenywod a gweithdrefnau disgyblu aneffeithiol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Yn dilyn adolygiad a ymgysylltodd â staff blaenorol a chyfredol, fe gyhoeddodd Fenella Morris CB ei hadroddiad ym mis Ionawr 2024. Nododd hwn nifer o feysydd pryder a gwnaeth 82 o argymhellion ar gyfer gwella.

Yn fuan wedyn, ymyrrodd Llywodraeth Cymru gan ddisodli'r Awdurdod Tân ac Achub â phedwar Comisiynydd i gyflawni newidiadau penodol, gan gynnwys y rhai a argymhellwyd mewn adolygiadau thematig diweddar gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub.

## Deddfwriaeth a gofynion eraill

Nodwyd hyn a wnawn a'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn gweithio gan Lywodraeth Cymru mewn deddfwriaeth amrywiol, ac y mae rhai o'r rhain yn berthnasol i'r holl wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaeth tân ac achub. Mae ein ffyrdd o weithio a'n ffocws ar y dyfodol yn dangos ein hymrwymiad i **Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, a chyda chefnogaeth y **Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol** mae hyn yn sicrhau ein bod yn ystyried y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cynlluniau a'n penderfyniadau. Bydd cyfrifoldebau **Partneriaeth Gymdeithasol** yn cynyddu ymglymiad undebau llafur yn ein cynllunio, gan sicrhau bod staff yn cael eu cynrychioli'n llawn.

# Ein Nod – I wneud De Cymru'n ddiogelach, trwy leihau risg

Rhaid i ni ddeall y risgiau pwysicaf a mwyaf perthnasol; os nad ydym yn mynd i'r afael â'r risgiau iawn ni fydd ein gwaith yn effeithiol, ac ni allwn gyflawni ein nod. Mae hyn nid yn unig yn golygu delio â'r heriau sy'n ein hwynebu fel gwasanaeth, ond hefyd materion cymunedol, cymdeithasol a byd-eang nawr ac yn y tymor hwy. Mae rhai o'r risgiau hyn yn cynnwys:

## Newid Hinsawdd

Rydym eisoes wedi gweld newidiadau i'r gofynion sy'n ein hwynebu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd: disgwylir i gyfnodau hirach ac amlach o dywydd eithafol gynyddu tanau gwyllt a llifogydd. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn barod; mae angen i'n staff a'n hoffer fod yn addas ar gyfer y gwahanol sefyllfaoedd hyn.

Mae helpu eraill i atal risg a bod yn barod ar gyfer digwyddiadau gwahanol yn rhan enfawr o'n gwaith atal. Rhaid i ni weithio'n agos gyda phartneriaid, tirfeddianwyr, a sefydliadau eraill i addysgu a pharatoi ar gyfer digwyddiadau newid hinsawdd megis tanau gwyllt neu lifogydd.

Agwedd bwysig arall ar ein gwaith yw dod yn fwy cynaliadwy; mae cyfrannu at fod yn rhan o'r ateb a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd yn golygu nodi lle y gallwn wella ein heffeithlonrwydd a gweithio tuag at fod yn sero net.

## Newid Poblogaeth

Mae oedran, anabledd, a ffactorau economaidd i gyd yn cyfrannu at risg. Mae angen gwasanaethau gwahanol ar boblogaeth sy'n heneiddio i'n galluogi i weithio'n agos gyda'i gilydd i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn effeithiol.

Rhaid bod ein negeseuon diogelwch a'n hymatebion i ddigwyddiadau yn hygyrch i bawb er mwy bod yn effeithiol. Rhaid i ni gynllunio a gwerthuso ein gwaith, gan ddefnyddio adborth gan bobl a sefydliadau yn ogystal â bod yn hyblyg o ran ein dull gweithredu fel bod pawb yn cael eu cynnwys a'u hamddiffyn.

Gan fod costau byw yn effeithio ar bawb, gallai pobl fod yn fwy agored i risgiau gwahanol. Mae cynllunio ar gyfer risgiau economaidd yn hanfodol, nid yn unig heddiw ond hefyd yn y dyfodol.

Mae deall ein cymunedau, pwy ydyn nhw a natur y newid sy'n effeithio arnynt yn caniatáu i ni nodi risgiau a chynllunio ar eu cyfer yn fwy effeithiol, gan sicrhau ein bod yn amddiffyn y rhai sydd ein hangen fwyaf.

## Technoleg Newydd

Mae cerbydau trydan a chynhyrchion sy'n cael eu pweru gan fatris lithiwm-ion yn creu gwahanol risgiau; mae'r rhain yn cynnwys ceir a beiciau trydan, a sgwteri'n cael eu defnyddio'n amlach o lawer. Gan fod y technolegau hyn yn newydd, rydym yn dal i ddysgu am y risgiau cysylltiedig. Hefyd, i gadw'n gyfredol â'r newidiadau cyson, rhaid i ni ddysgu, cynllunio ac addasu'n rheolaidd. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i'n hymatebion ond i'n gwaith gydag ysgolion, a sefydliadau eraill, fel bod gan bobl yn ein cymunedau ddealltwriaeth gyfredol hefyd. Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain; mae angen i ni weithio â gwasanaethau eraill, ceisio cyngor arbenigol, a gweithio'n agos gyda'n cymunedau i fod yn effeithiol.

# Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025

I ddangos sut rydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau yn ein cynlluniau, rydym yn defnyddio wyth Thema Strategol i lunio ein hamcanion:

## Eich Cadw'n Ddiogel

- Newid ein polisi ar fynychu Larymau Tân Awtomatig, gan roi mwy o amser i ni leihau risg a hyfforddiant
- Gwneud gwell defnydd o'n data a ffynonellau eraill a all ein helpu i leihau risg
- Sicrhau ein bod yn helpu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl i fod yn ddiogel
- Gweithio gydag eraill i hyrwyddo diogelwch dŵr
- Sicrhau bod rheolwyr adeiladu yn deall eu cyfrifoldebau
- Gwneud yn siŵr ein bod yn barod i ddelio ag effaith newid hinsawdd

## Ymateb i'ch Argyfwng

- Adolygu ein rhaglen hyfforddi ar gyfer staff gweithredol
- Diweddaru ein cyrsiau hyfforddi gyrwyr
- Gweithio gyda gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru ar hyfforddiant
- Defnyddio ein hadolygiad Ar Alwad i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu a gwella
- Uwchraddio systemau Rheoli Tân ar y Cyd

## Gweithio gyda'n Partneriaid

- Gweithio gydag eraill i nodi'r sawl sy fwyaf mewn perygl
- Gwella rhannu data gyda'n partneriaid
- Sicrhau ein bod ni a'n partneriaid yn elwa o gydweithio
- Edrych ar sut y gallwn rannu eiddo gyda gwasanaethau brys eraill

## Cynnwys a Chyfathrebu

- Rhoi cyhoeddusrwydd am bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud
- Cydweithio i wella'r Gwasanaeth
- Gofyn i'n staff sut y gallwn wella cyfathrebu

## Gwarchod a Gwella ein Hamgylchedd

- Gweithio i leihau effaith tanau gwyllt
- Dechrau gwaith ar ein gorsaf garbon niwtral gyntaf
- Uwchraddio ein cyfleuster hyfforddi i leihau effaith amgylcheddol
- Gwella rheoli gwastraff a chynyddu ailgylchu
- Mesur ac adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn ein Cynllun Lleihau Carbon
- Gwella ein cofnodion fflyd i helpu i fonitro effeithlonrwydd

## Defnyddio Technoleg yn Dda

- Uwchraddio systemau cyfathrebu ar beiriannau tân
- Defnyddio TGCh i helpu ein staff i gadw mewn cysylltiad a chymryd rhan
- Gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg symudol
- Dod o hyd i ffyrdd o weithio ar draws adrannau yn fwy effeithlon
- Gwneud ein systemau TGCh yn fwy sicr a diogel
- Cefnogi Rheoli Tân ar y Cyd mewn prosiectau newydd


## Gwerthfawrogi ein Pobl

- Ymateb i'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol trwy weithredu'r holl argymhellion
- Ad-drefnu ein hadran Gwasanaethau Pobl i gefnogi'r Gwasanaeth
- Adolygu cyfraddau cadw Ar Alwad
- Datblygu hyfforddiant sgiliau sylfaen ar gyfer yr holl staff

## Parhau i Weithio'n Effeithiol

- Mesur yr hyn a wnawn i ddangos y gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud
- Adrodd gwybodaeth glir i'r cyhoedd ac eraill
- Sicrhau bod ein prosesau caffael yn deg ac yn gadarn drwy weithio gydag eraill

**Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion ein cyllideb, ein perfformiad blaenorol gydag enghreifftiau penodol o waith lleol a'n cynlluniau ategol gallwch gael mynediad i'n cynllun llawn ar ein gwefan neu drwy glicio ar y ddelwedd.**



# Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i wasanaethu'r rhai sy'n dewis cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol. Yn ein hymrwymiad i gefnogi uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050, rydym yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dwyieithrwydd a datblygu sgiliau Cymraeg i'n staff. Yn unol â Safonau'r Gymraeg 2015, rydym wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Awdurdod.

Cyhoeddir yr **Hysbysiad Cydymffurfio** hwn ar ein gwefan ac mae'n rhoi manylion am ba wasanaethau y gall pobl ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wella'r safon gyffredinol o ran ein darpariaeth gwasanaeth.

## Fersiynau amgen

Rydym yn cyhoeddi fersiwn "darllen cyflym" o'r cynllun hwn ac mae'r ddau fersiwn ar gael ar ein gwefan gyda chyfleuster sain "Siaradwch y wefan". Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, **cysylltwch â ni**.

## Dweud eich dweud

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Wrth wneud hyn, rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau ac adrodd arnynt. I gael diweddariadau rheolaidd a gwahoddiadau i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac arolygon yn y dyfodol, cysylltwch â ni i ymuno â'n Cofrestr Rhanddeiliaid.

## Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View,
Llantrisant, CF72 8LX

## Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk

## E-bostiwch ni

ded@decymru-tan.gov.uk

## Galwch ni

01443 232000

@TanDeCymru

@TanDeCymru

@sw_fire_and_rescue

**Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.**
**Byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.**

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Busnes Parc Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd yn fewnol gan Y Wasg a Chyfathrebiadau 2024 | MC000265